



## **Mae Swyddfa Bost® Bryntirion yn newid**

Yn ddiweddar gofynnwyd ichi am eich barn ynglŷn â'n bwriad i newid eich Swyddfa Bost i fod yn un o'n canghennau lleol ar eu newydd wedd. Er na chawsom unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newidiadau posibl, rydym wedi adolygu a chwblhau ein cynlluniau ar gyfer y newid i'ch cangen. Isod, fe welwch grynodedb o rai o'r prif newidiadau.

Bwriedir agor eich Swyddfa Bost ar ei newydd wedd yn y lleoliad presennol ddydd Gwener 21 Medi 2018 am 13:00. Er mwyn gwneud y newid bydd angen cau'r gangen ar gyfer gwaith adnewyddu ddydd Mercher 19 Medi 2018 am 17:30.

### **Eich Swyddfa Bost**

Bydd yn dda gennych glywed na fydd y rhan fwyaf o'r hyn rydych chi'n hoffi ynglŷn â'ch cangen yn newid. Mae'ch gweithredydd newydd yn awyddus i ddarparu'r un safon uchel o wasanaeth ag sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd, a bydd yn derbyn hyfforddiant i'r un safonau uchel a bennir gan Swyddfa'r Post.

### **Y newidiadau i'ch cangen**

Bydd y Swyddfa Bost ffasiwn newydd yn cael ei rhedeg o gownter cynllun-agored wrth dil y siop. Bydd hyn yn darparu amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â thrafodion y siop.

### **Eich oriau agor newydd**

Pan fydd y gangen newydd yn agor, bydd cwsmeriaid yn elwa ar yr oriau agor estynedig:

Llun-Sadwrn      06:30–22:00

Sul                06:30–17:00

Mae gennym dros 2000 o ganghennau eisoes sy'n cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y ffordd newydd hon. Mae cwsmeriaid yn dweud wrthym eu bod yn hoffi'r oriau agor estynedig sy'n cael eu cynnig gan ganghennau lleol ar eu newydd wedd. Mae hyn yn golygu y gall cwsmeriaid ddewis ymweld â'u cangen leol pan mae'n gyfleus iddyn nhw, un ai yn gynnar yn y bore, yn ystod y dydd, neu'n hwyrach gyda'r nos. Mae hyn hefyd yn golygu bod llai o bobl yn yr adeilad ar yr un pryd.

### **Argaeledd cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post**

Mae'r fformat lleol newydd yn symlach nag yw'r drefn mewn Swyddfa Bost draddodiadol. Bydd cynhyrchion a gwasanaethau'n cael eu trafod yn awtomataidd fel bod y gwasanaeth i gwsmeriaid yn gynt ac yn fwy effeithlon, a thrafodion yn cael eu prosesu'n gyflymach. Efallai y byddwch yn gorfod mynd i Swyddfa Bost arall ar gyfer ambell beth sydd yn fwy cymhleth neu sy'n ymofyn trafod â llaw, megis parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide. Ond bydd y rhan fwyaf o wasanaethau ar gael o hyd, gan gynnwys derbyn llythyrau rhyngwladol y Post Brenhinol, parseli hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg.

Bydd y nifer fach o wasanaethau na fydd ar gael bellach yn Swyddfa Bost Bryntirion ar gael o hyd yn Swyddfa Bost Dunraven Place.

### **Defnyddio canghennau cyfagos yn ystod yr adnewyddu**

Buom yn gweithio gyda'r gweithredydd i wneud yn siŵr y bydd y gangen ar gau am gyn lleied o amser â phosibl. Mae poster yn y gangen yn rhoi manylion am y canghennau agosaf y gallwch eu defnyddio bryd hynny. Mae'n ddrwg gennym am unrhyw anhwylystod yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwch cystal ag edrych ar y poster yn y gangen i gael rhagor o fanylion am y newid.

Sut i gysylltu â ni:

[postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)

FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**